



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan  
Cardiff / Caerdydd  
CF11 9LJ

Tel/Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

[info@audit.wales](mailto:info@audit.wales) / [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

[www.audit.wales](http://www.audit.wales) / [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Mr Rob Thomas  
Rheolwr Gyfarwyddwr  
Cyngor Bro Morgannwg  
Swyddfeydd Dinesig  
Heol Holton  
Y Barri  
Bro Morgannwg  
CF63 4RU

**Cyfeirnod:** 1589A2019-20

**Dyddiad cyhoeddi:** 25 Tachwedd 2019

Annwyl Rob

## Llythyr Archwilio Blynyddol - Cyngor Bro Morgannwg 2018-19

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- sefydlu systemau rheolaeth fewnol er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chadw golwg ar drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwiliad y cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 12 Medi 2019 rhoddais farn archwilio ddiamedd ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae f'adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd wrth aelodau o'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol oedd yn codi o archwiliad y cyfrifon yn fy *Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol* ar 2 Medi 2019, ac wedi hynny i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 9 Medi 2019.

O 2020-21 ymlaen, bydd angen dod â dyddiadau Pwyllgorau ymlaen i gynnwys y llinellau terfyn statudol cynharach y bydd angen paratoi y datganiadau ariannol drafft ar eu cyfer a'u llofnodi gan y swyddog ariannol cyfrifol (swyddog S151) erbyn 31 Mai 2021 a bydd angen i'r datganiadau ariannol gael eu cymeradwyo gan y Cyngor a'u cyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf 2021. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion y Cyngor dros yr hydref i nodi a gweithredu gwelliannau pellach wrth baratoi ac archwilio datganiadau ariannol 2019-20, gyda'r nod o gyrraedd y dyddiadau terfyn diwygiedig erbyn 2020-21.

### **Yr wyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau**

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rwyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau er fy mod, ym mis Awst 2019, wedi nodi yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol<sup>1</sup> rai meysydd lle gellid gwneud gwelliannau.

Er gwaethaf y casgliad uchod, hoffwn dynnu sylw at y ffaith fy mod yn cynnal adolygiad o gynladwyedd ariannol y Cyngor ar hyn o bryd, a disgwyliaf adrodd yn ôl i'r Cyngor erbyn Rhagfyr 2019. Bydd f'adroddiad yn nodi unrhyw feysydd penodol lle y gellid gwneud gwelliannau.

---

<sup>1</sup> <http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/cyngor-bro-morgannwg-adroddiad-gwella-blynyddol-2018-19>

## Rhoddais dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad y cyfrifon wedi'i gwblhau ar 12 Medi 2019

Ar ôl rhoi barn archwilio ar y datganiadau ariannol a dod i gasgliad ynghylch trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, roeddwn yn gallu tystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau pan gyhoeddais fy marn archwilio.


## Nid yw fy ngwaith hyd yma ar ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion o bwys

Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn yn gynnar yn 2020, unwaith y bydd rhaglen gwaith ardystio'r flwyddyn hon wedi'i chwblhau.

## Ffi archwilio ariannol

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2018-19 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni ac a nodir yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yn gywir



**Anthony Veale**

**Cyfarwyddwr Ymgysylltu**

**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc Neil Moore, Arweinydd  
Carys Lord, Pennaeth Cyllid